

Awryluniau - Lliwedd a'r Wyddfa

gan Gwaith Maes

Mae hawlfraint y lluniau yn eiddo i Gyngor Brenhinol Henebion Cymru a dymuna Cymdeithas Gwaith Maes gydnabod ei diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Gellir seilio pob math o ymarferion buddol ar y ddau awrylun hwn ond mae'r cwestiynau a gynigir yn rhoi arweiniad i un trywydd posibl. Bydd angen y canlynol i gwblhau'r tasgau ac i lunio gwaith estynedig pellach:

MAPIAU AROLWG ORDNANS:

Landranger 125	1:50 000	Yr Wyddfa
Outdoor Leisure 17	1:25 000	Yr Wyddfa
Cyfeirnod yr Wyddfa	610545	
Cyfeirnod Lliwedd	623533	

1. Faint o wahaniaeth uchder sydd rhwng y ddau gopa?
Faint o bellter sydd rhyngddynt?
2. Pa dystiolaeth sydd fod o leiaf un o'r ddau gopa yn dioddef erydiad difrifol?
3. Pa un o'r ddau gopa sydd yn dangos olion yn erydiad gwaethaf - Lliwedd (Ilun A) neu'r Wyddfa (Ilun B)?
4. Beth sydd wedi achosi'r erydiad?
5. Faint o lwybrau troed sydd yn cyrraedd a) copa'r Wyddfa b) copa Lliwedd?
6. Ydy'r gwahaniaeth yn nifer y llwybrau yn ddigon ynddo'i hun i egluro'r gwahaniaeth yng nghyflwr y ddau gopa?
7. Cynigiwch resymau pam y mae cymaint o ymwelwyr yn cyrchu copa'r Wyddfa.
8. Pa dystiolaeth sydd fod gwaith yn cael ei wneud i geisio atal y difrod a gwella'r sefyllfa?
9. Mewn grwpiau, trafodwch ddulliau posibl o ddatrys problemau manau poblogaidd ond bregus o'r fath.

LLUN A

Hawlfraint y Goron: CHBC



LLUN B

Hawlfraint y Goron: CHBC

